# Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

## Dydd Mawrth 12 Tachwedd 2019

## 12.30–1.30

**Aelodau o'r Senedd yn bresennol:**

David Melding AS - Cadeirydd (DM)

Nick Ramsay AS (NR)

**Yn bresennol:**

Ann Bell – Adoption UK (AB)

Elizabeth Flowers – Staff Comisiynydd Plant Cymru

Deborah Jones – Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care Cymru (DJ)

Elaine Speyer - Barnardos

Bethan T James - Cyngor Sir Caerfyrddin (BTJ)

Sophie Hallett - Prifysgol Caerdydd (SH)

Emma Sullivan - Plant yng Nghymru

Sian Thomas - Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad

Max Wigfield - NSPCC

Vivienne Laing NSPCC (VL)

Sharon Lovell - NYAS Cymru (SL)

Jackie Murphy – TGP Cymru (JM)

Tim Crahart - Rheolwr Cymorth Busnes, Voices From Care Cymru - (cofnodwr) (TC)

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Rachel Thomas

Leoni Oxenham

Paula Foley

Rhys Taylor

Dan Willis

Angela Keller

Sean O'Neil - Plant yng Nghymru

Malcolm Williams

Graham Hinchey

Emma Phipps Magill

1. **Croeso a chyflwyniad gan y Cadeirydd**
   Croesawodd DM y grŵp
   Darllenodd DM enwau'r rhai a oedd wedi ymddiheuro a chroesawodd yr aelodau newydd i'r grŵp.

2. **Cofnodion**
   Trafodwyd y cofnodion a chytunwyd eu bod yn gywir.
   Nid oedd dim materion yn codi.

3. **Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC)**
   Cyflwynodd NR ei hun fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan egluro'i rôl yn y Pwyllgor hwn. Mae NR wedi ysgrifennu adroddiad am waih y PAC mewn perthynas â'r gofal a gaiff plant a phobl ifanc. Roedd ei gyflwyniad wedi'i seilio ar yr adroddiad ysgrifenedig.
   Roedd yn cydnabod bod nifer fawr o bobl ifanc yn y system ofal, a bod y nifer yn codi, a gofynnodd a ellid gwneud mwy ag adnoddau cyhoeddus.
   Fel rhan o gam cyntaf y gwaith, siaradodd y Pwyllgor â phobl ifanc am eu profiadau.
   Dywedodd NR fod aeddfedrwydd y bobl ifanc dan sylw yn drawiadol iawn.
   Cwblhawyd yr adroddiad yn 2018, ac roedd yn cynnwys deuddeg o argymhellion.
   Mae cam dau o waith y PAC yn awr wedi dechrau.
   Dywedodd NR ei fod yn arfer bod yn Gynghorydd Sir ac roedd yn ymwybodol iawn o'i gyfrifoldeb fel rhiant corfforaethol. Yn ystod y cyfnod hwn nid oedd bob amser yn teimlo bod pobl ifanc yn ganolog i'r penderfyniadau a oedd yn cael eu gwneud yn eu cylch.
   Dywedodd NR ei fod yn teimlo y dylid ymdrin â phroblemau ynghynt er mwyn osgoi'r angen i wario mwy ar ymyriadau'n ddiweddarach. Roedd angen newid ystyrlon, ac ar raddfa eang.
   Bydd sesiwn ddilynol yn cael ei chynnal gyda swyddogion cyfrifyddu ar 2 Rhagfyr 2019 er mwyn olrhain y cynnydd a wnaed o ran rhoi'r argymhellion ar waith.
   Yn ystod y cam nesaf, bydd y Pwyllgor yn ystyried pa mor effeithiol yw'r ymyriadau presennol. Esboniodd NR fod amrywiaeth eang o ran gwariant y pen a bod rhai awdurdodau yn gwneud yn well nag eraill o ran canlyniadau.
   Gorffennodd NR drwy ddweud y bydd adroddiad yn barod yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.

   Dywedodd VL fod nifer fawr o blant newydd eu geni'n cael eu rhoi yn nwylo'r gwasanaethau gofal ac y dylid gweithio'n galetach i helpu rhieni ifanc yn hytrach na'u hasesu.
   Ychwanegodd JM fod 25% o'r plant sy'n derbyn gofal o dan 5 oed.

DRAFT

Dywedodd DJ ei bod yn anodd gweld sut y gallwn bwyso a mesur canlyniadau ar sail yr arian a wariwyd. Er enghraifft, meddai, gellid ystyried cost ysgolion bonedd a'u canlyniadau, a chymharu hyn â chost gofal, sy'n swm tebyg, ond sy'n arwain at ganlyniadau gwahanol iawn. Gofynnodd y cwestiwn, 'A yw'r diwydiant yn methu?'

Dywedodd NR fod pobl yn aml yn meddwl bod y PAC yn ymwneud â thorri costau, ond roedd, meddai, yn aml yn cynghori awdurdodau i wario mwy. Aeth rhagddo i ddweud ei bod yn hynod ddiddorol clywed yn uniongyrchol gan y bobl ifanc. Cafodd sioc o glywed bod un person ifanc wedi cael ei roi mewn ugain lleoliad gwahanol mewn blwyddyn. Roedd hyn yn aml yn niweidiol.

Dywedodd AB y dylid canolbwyntio mwy ar greu llwybrau gwahanol i ganiatáu i bobl ifanc adael y system gofal. Dywedodd y byddem yn gweld canlyniadau gwell pe bai teuluoedd sy'n mabwysiadu'n cael mwy o gymorth hy pecynnau cymorth hirdymor.

Dywedodd SL fod rhianta corfforaethol ar yr agenda yng nghyfarfodydd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ac y byddai'n creu mwy o atebolrwydd ym maes iechyd, tai, trafnidiaeth, hamdden, etc. Mae rhianta corfforaethol yn gyfrifoldeb i bawb a dylid buddsoddi ym mhob maes. Ychwanegodd fod gan sectorau a sefydliadau eraill ran i'w chwarae. Er enghraifft, a ddylai pobl ifanc sy'n derbyn gofal gael cludiant am ddim?

Daeth NR â'r drafodaeth i ben drwy ddweud y byddai'n hapus cwrdd â'r Grŵp eto pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi.

**4. Ymchwil Cadw'n Ddiogel**

Rhoddodd SH o Brifysgol Caerdydd gyflwyniad yn seiliedig ar yr ymchwil y mae wedi'i gynnal.

(Mae'r cyflwyniad ynghlwm gyda'r cofnodion)

Diolchodd DM i SH am y cyflwyniad a thynnodd sylw at y pwyntiau a ganlyn:

- effeithiau nifer uchel o leoliadau ar y tebygolrwydd y bydd pobl yn camfanteisio'n rhywiol ar y bobl ifanc dan sylw
- mae'n bwysig bod oedolion yn cael dylanwad cadarnhaol
- Mae sefyllfa dai ansefydlog yn ffactor risg mawr o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant

**5. Cynhadledd Ar Goll mewn Gofal: 20 mlynedd yn ddiweddarach**

Esboniodd DM ei fod yn gobeithio cynnal cynhadledd i nodi'r ffaith bod ugain mlynedd wedi mynd heibio ers cyhoeddi'r adroddiad Ar Goll mewn Gofal. Ar hyn o bryd, y siaradwyr gwadd oedd:
Mark Drakeford (Prif Weinidog Cymru)
Julie Morgan AC, (y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)
Sally Holland (Comisiynydd Plant Cymru)
John O-Brien (Ysgrifennydd yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Rhywiol)
Y Foneddiges Sarah Waterhouse (Noddwr Voices from Care Cymru
Gan fod yn rhaid cyfyngu ar niferoedd, digwyddiad drwy wahoddiad yn unig fydd hwn ond dylai aelodau'r Grŵp ddisgwyl gwahoddiad cyn bo hir.

6. **Iechyd Meddwl Plant mewn Gofal**
Esboniodd DM fod cais wedi dod i law i gynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Phobl Ifanc sydd wedi bod mewn Gofal, a hynny er mwyn ystyried Iechyd Meddwl Plant mewn Gofal.

Cynigiwyd hyn i'r Grŵp, a derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.

Bydd y ddau Grŵp yn cwrdd ar y cyd ddiwedd mis Ionawr.

7. **Dyddiad y cyfarfod nesaf.**
I'w gadarnhau

DRAFT